# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 27 Mehefin 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

## 148(v5)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 3.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(0 mins)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynnig i atal y Rheolau Sefydlog i ganiatáu i'r eitem fusnes nesaf gael ei hystyried

**NDM6754** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i), 12.22(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM6753 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher, 27 Mehefin 2018.

## 5 Dadl ar NNDM6753 – Ysgrifennydd Gwladol Cymru

(60 munud)

**NNDM6753** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn datgan nad oes ganddo bellach hyder yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru i gyflawni proseictau seilwaith mawr, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth San Steffan i beidio â chefnogi morlyn llanw Bae Abertawe.

2. Yn datgan nad oes ganddo hyder yn swydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac yn credu y dylai'r swydd gael ei dileu a'i disodli gan gyngor Gweinidogion y DU, wedi'i gyfansoddi'n briodol gyda phwerau cyfartal i wneud penderfyniadau ar y cyd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Julie James (Gorllewin Abertawe)**

Dileu popeth ar ôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru a rhoi yn ei le:

1. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth y DU i fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith mawr yng Nghymru, gan gynnwys Morlyn Ynni'r Llanw Bae Abertawe a thrydaneiddio'r brif linell rhwng Caerdydd ac Abertawe.

2. Yn gresynu at fethiant Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ddadlau achos Cymru ac i gefnogi'r angen am ragor o fuddsoddiad gan Lywodraeth y DU mewn prosiectau seilwaith mawr yng Nghymru.

3. Yn credu:

a) bod rhaid sicrhau rhagor o gydweithredu sy'n fwy cynaliadwy rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig;

b) bod angen diwygio peirianwaith rhynglywodraethol y DU gan sefydlu cyngor Gweinidogion newydd ar gyfer y DU, gydag ysgrifenyddiaeth annibynnol, er mwyn atgyfnerthu'r cydweithio a'r broses o wneud penderfyniadau.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cyflawniadau sylweddol Ysgrifennydd Gwladol Cymru, sy'n cynnwys:

a) y cytundeb â Llywodraeth Cymru ar fframwaith cyllidol hanesyddol;

b) diddymu tollau'r pontydd Hafren;

c) buddsoddiad sylweddol mewn bargeinion dinesig a bargeinion twf rhanbarthol ledled Cymru; a

d) y cyhoeddiad diweddar ynghylch negodiadau pellach i ddatblygu ac adeiladu gorsaf niwclear newydd yn Wylfa Newydd.

2. Yn nodi anallu Llywodraeth Cymru i ddarparu cynnydd ar brosiectau seilwaith mawr ledled Cymru, yn dilyn ei phenderfyniad i wrthod Cylchffordd Cymru a'i methiant parhaus i gyflawni gwelliannau i'r M4, yr A40 a'r A55.

3. Yn credu bod swydd a swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn hanfodol o ran cynrychioli buddiannau Cymru ar lefel Llywodraeth y DU.

## 6 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Adeiladu tai lesddaliad preswyl

(30 munud)

**NDM6671** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil i:

a) rhoi terfyn ar adeiladu tai lesddaliad preswyl yng Nghymru; a

b) gwella ymwybyddiaeth defnyddwyr o oblygiadau deiliadaeth lesddaliad.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i wrthod pob cais cynllunio ar gyfer datblygiadau tai lesddaliad preswyl; a

b) gosod dyletswydd ar asiantwyr gwerthu a rheoli i ddarparu gwybodaeth am oblygiadau cytundebau lesddaliad i ddarpar brynwyr eiddo lesddaliad sy'n bodoli eisoes.

**Cefnogwyr:**

Jane Hutt (Bro Morgannwg)
Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)
Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)
Vikki Howells (Cwm Cynon)

## 7 Dadl ar Ddeisebau P-04-472 Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf a P-04-575 Galw i Mewn Pob Cais Cynllunio ar Gyfer Cloddio Glo Brig

(60 munud)

**NDM6747** David J. Rowlands (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar ddeiseb P-04-472, 'Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf a Deiseb P04-575 Galw i Mewn Pob Cais Cynllunio ar Gyfer Cloddio Glo Brig - Crynodeb o'r ystyriaeth', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Ebrill 2018.

## 8 Dadl Plaid Cymru - Ynni hydrogen

(30 munud)

**NDM6750** **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r adroddiad, 'Potensial hydrogen yn y datgarboneiddio o drafnidiaeth yng Nghymru', a gyhoeddwyd gan Simon Thomas AC.

2. Yn nodi bwriad datganedig Llywodraeth Cymru i adeiladu ar sgiliau ac arbenigedd i arwain y Deyrnas Gyfunol mewn ymchwil a datblygiad a buddsoddiad yn hydrogen.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i drafod gyda busnesau, ymchwilwyr a chyrff i gynnal digwyddiad allweddol i gyfleu uchelgais Cymru mewn perthynas â'r economi hydrogen i gynulleidfa fyd-eang ac fel sbardun i ddatblygu strategaeth economi hydrogen gynhwysfawr.

Potensial Hydrogen yn y Datgarboneiddio o Drafnidiaeth yng Nghymru

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ym mhwynt 1, ar ôl 'Simon Thomas AC', mewnosoder:

', ac yn nodi ymhellach:

a) potensial hydrogen fel ffurf amgen o danwydd;

b) pwysigrwydd tanwydd hydrogen i arallgyfeirio ein portffolio ynni;

c) y gwahaniaeth pwysig rhwng tanwydd hydrogen gwyrdd a brown;

d) bod tanwydd hydrogen gwyrdd dim ond yn ddichonadwy fel sgil-gynnyrch o gynhyrchu gormodedd o drydan, ac felly dylid cydnabod ei gyfyngiadau; ac

e) bod angen i Lywodraeth Cymru wneud gwelliannau i seilwaith y grid yng Nghymru er mwyn sicrhau y gellir defnyddio trydan a hydrogen fel dewisiadau gwyrdd amgen yn lle tanwyddau ffosil.'

**Gwelliant 2** – Julie James (Gorllewin Abertawe)

Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi'r pwyntiau a ganlyn yn eu lle:

Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd ati drwy'r Cynllun Gweithredu newydd ar yr Economi i ddatgarboneiddio modelau busnes traddodiadol, gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith yng Nghymru a symud ymlaen at ddyfodol carbon isel mewn ffordd a all helpu'n heconomi i arallgyfeirio ac i dyfu.

Yn nodi gwaith Llywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio rhwydwaith trafnidiaeth Cymru, gan gynnwys yr ymrwymiad diweddar i sicrhau gostyngiad o 25 y cant mewn allyriadau ar draws rhwydwaith rheilffordd Cymru a'r Gororau erbyn 2023.

Yn nodi bod yn rhaid i waith i ddatgarboneiddio system drafnidiaeth Cymru fod yn eang ei sail, a bod angen gwneud gwaith ymchwil a datblygu creadigol ar atebion eraill o ran seilwaith ac ar draws amrywiaeth o danwyddau arloesol a systemau tyniant, gan gynnwys hydrogen.

Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi

**Gwelliant 3** – Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i sicrhau bod unrhyw fathau o ynni amgen y maent yn archwilio iddynt yn bodloni'r profion fforddiadwyedd, sy'n cynnwys peidio â gosod gormod o faich ar drethdalwyr.

## 9 Dadl Plaid Cymru - Canserau'r pen a'r gwddf

(30 munud)

**NDM6751** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnydd yn nifer yr achosion o ganserau'r pen a'r gwddf ymhlith dynion.

2. Yn nodi'r dystiolaeth o effeithiolrwydd y brechiad HPV o ran diogelu rhag y mathau hyn o ganser.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymestyn ei rhaglen brechu HPV i'r holl fechgyn yn eu glasoed.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Julie James (Gorllewin Abertawe)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

3. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn aros am gyngor gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu ynghylch a ddylid ymestyn y rhaglen frechu HPV i gynnwys bechgyn yn eu harddegau.

## 10 Cyfnod pleidleisio

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6749** Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Bagloriaeth Cymru: Addysg ynteu orfodaeth?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 3 Gorffennaf 2018

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 20/06/2018 i'w hateb ar 27/06/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

1 OAQ52403

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am les addysgol plant mabwysiedig?

**Hefin David** *Caerffili*

2 OAQ52411

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gefnogi oedolion i uwchsgilio ac ailsgilio pan fyddant mewn gwaith?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

3 OAQ52407

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella lefelau cyrhaeddiad ymysg disgyblion mwyaf difreintiedig Gorllewin De Cymru?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

4 OAQ52416

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am addysgu sgiliau digidol mewn ysgolion yng Ngogledd Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

5 OAQ52421

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y grant ysgolion bach a gwledig?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

6 OAQ52399

Sut y mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi addysg ym Mhowys?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

7 OAQ52412

Beth yw'r strategaeth ar gyfer ariannu'r grant cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig y tu hwnt i 2018/19?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

8 OAQ52425 **TYNNWYD YN ÔL**

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fagloriaeth Cymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

9 OAQ52390

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dysgwyr ag

anhwylder ar y sbectrwm awtistig?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

10 OAQ52408

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu adnoddau i ysgolion yng Nghymru?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

11 OAQ52396

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr ystyriaeth a roddir i absenoldeb oherwydd anabledd wrth gasglu ffigurau presenoldeb ysgol?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

12 OAQ52414

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am bolisi mynediad ysgolion Llywodraeth Cymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

13 OAQ52402

Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o rôl egwyddorion cydweithredol o fewn y system addysg yng Nghymru?

**David Melding** *Canol De Cymru*

14 OAQ52420

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael gydag aelodau'r cabinet ar yr effaith y gallai toriadau i Llenyddiaeth Cymru ei chael ar lefelau cyrhaeddiad addysgol mewn iaith a llenyddiaeth Saesneg?

## Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

1 OAQ52426 **TYNNWYD YN ÔL**

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun Llywodraeth Cymru i gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

2 OAQ52409

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran lleihau'r diffygion yng nghyllideb byrddau iechyd lleol?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

3 OAQ52406

Pa gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i leihau lefelau ysmygu?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

4 OAQ52401

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am wasanaethau iechyd yn Sir Drefaldwyn?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

5 OAQ52424

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu gwasanaeth hunaniaeth rhywedd i Gymru?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

6 OAQ52422

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gyllid ar gyfer diffibrilwyr?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

7 OAQ52393

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddarparu gwasanaethau cymdeithasol i blant?

**David Rees** *Aberafan*

8 OAQ52423 **TYNNWYD YN ÔL**

Pa ddadansoddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r costau a gododd o ganlyniad i newid y ffiniau rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, a gyhoeddwyd ar 14 Mehefin?

**Mick Antoniw** *Pontypridd*

9 OAQ52398

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am wasanaethau meddygaeth cwsg?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

10 OAQ52404

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Pa gymorth ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg?

**Simon Thomas** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

11 OAQ52417

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad ynglŷn ag amseroedd aros i gofrestru am ddeintyddion y GIG yng Ngheredigion?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

12 OAQ52415

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg



A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fodlonrwydd cleifion gyda mynediad i feddygon teulu?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**13** OAQ52400

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am lefelau staff nyrsio mewn cartrefi gofal?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

**14** OAQ52410

Pa gamau y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn eu cymryd i sicrhau bod byrddau iechyd yn bodloni'r targedau a bennwyd ar eu cyfer gan Lywodraeth Cymru?

**Bethan Sayed** *Gorllewin De Cymru*

**15** OAQ52394

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgynghoriad ar y fframwaith anhwylderau bwyta?